# Y diweddaraf gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Gwanwyn 2024

Senedd Cymru
Welsh Parliament



Mae’r cylchlythyr hwn yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y tymor hwn, yn ogystal â manylion gwaith yn y dyfodol a sut i gymryd rhan.

Mae’r Pwyllgor yn awyddus i gynifer o bobl â phosibl ymgysylltu â’n gwaith. Os hoffech gysylltu â ni, neu roi adborth ar y cylchlythyr hwn, cysylltwch seneddiechyd@senedd.cymru.

## Cefnogi pobl sydd â chyflyrau cronig

Y tymor hwn, rydym wedi clywed tystiolaeth lafar gan randdeiliaid allweddol i lywio cam 2 yr ymchwiliad. Gwnaethom hefyd gynnal digwyddiad rhanddeiliaid ddiwedd mis Chwefror a chyhoeddi nodyn o’r cyfarfod hwnnw.

Ar ôl toriad y Pasg, byddwn yn cynnal ein sesiynau tystiolaeth terfynol cyn troi ein sylw at ddrafftio’r adroddiad.

Mae'r holl fanylion i’w gweld ar ein gwefan.

## Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016: Gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol

Ar ôl cwblhau ein gwaith casglu tystiolaeth cyn toriad y Nadolig, rydym bellach wedi cytuno a chyhoeddi ein hadroddiad, sy'n gwneud nifer o argymhellion i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Disgwyliwn gael ymateb y Gweinidog o fewn 6 wythnos a byddwn yn ei adolygu cyn penderfynu ar unrhyw gamau nesaf.

Gallwch ddilyn ein gwaith ar dudalen gwe'r ymchwiliad.

## Atal iechyd gwael – Gordewdra

Rydym wedi cytuno i ddechrau gweithio ar ymchwiliad newydd, yn edrych ar atal iechyd gwael sy'n ymwneud yn benodol â gordewdra.

Mae gordewdra'n cael ei gydnabod fel un o'r heriau iechyd cyhoeddus mwyaf arwyddocaol, yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae nifer yr achosion yn cynyddu yng Nghymru (ac mewn mannau eraill), gyda chymunedau mwyaf difreintiedig yn gweld lefelau llawer yn uwch o ordewdra. Mae gordewdra yn ffactor risg allweddol ar gyfer ystod eang o glefydau cronig, gan gynnwys diabetes math 2, pwysedd gwaed uchel, clefyd cardiofasgwlaidd (gan gynnwys strôc), a rhai canserau. Mae hefyd yn effeithio ar lesiant pobl, ansawdd eu bywyd, a'u gallu i weithio.

Bydd ein gwaith yn ystyried effeithiolrwydd strategaeth, rheoliadau, a chamau gweithredu cysylltiedig Llywodraeth Cymru i atal a lleihau gordewdra yng Nghymru.

Rydym wedi lansio galwad agored am dystiolaeth ysgrifenedig. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 7 Mehefin 2024. Mae manylion llawn yr ymchwiliad, gan gynnwys y cylch gorchwyl a gwybodaeth am sut i ymateb i'n hymgynghoriad, ar gael ar ein tudalen gwe.

## Canserau gynaecolegol

Ers ein cylchlythyr diwethaf, rydym wedi derbyn ymateb i'n hadroddiad.

Byddwn yn trafod ein hadroddiad ac ymateb y Gweinidog yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Mai 2024 ac, wrth baratoi ar gyfer hynny, rydym wedi gwahodd rhanddeiliaid i rannu eu barn â ni ar ymateb y Gweinidog.

## Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

Ar 17 Ionawr, cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i drafod cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Gallwch wylio'r sesiwn ar Senedd TV.

Yn dilyn y sesiwn honno, cyhoeddwyd ein hadroddiad ar y gyllideb ddrafft, a oedd yn cynnwys nifer o argymhellion i'r Gweinidogion, ac rydym bellach wedi cael eu hymateb.

Ar 7 Mawrth, cynhaliodd y Senedd ddadl ar gyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25.

## Gwrandawiadau cyn penodi

Ar 24 Ionawr, cynhaliodd y Pwyllgor wrandawiad cyn penodi gydag ymgeisydd dewisol Llywodraeth Cymru ar gyfer swydd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Ar 30 Ionawr, cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod Dyfed Edwards wedi'i benodi i'r swydd.

Ar 25 Ebrill, cynhaliodd y Pwyllgor wrandawiadau cyn penodi gydag ymgeiswyr dewisol Llywodraeth Cymru ar gyfer swyddi Cadeiryddion Byrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Hywel Dda. Yn dilyn hynny, cadarnhawyd penodi Jan Williams a Neil Wooding (yn y drefn honno).

Mae'r Pwyllgor yn dymuno'n dda i bob ymgeisydd yn eu rôl newydd.

Gellir gweld adroddiadau pob gwrandawiad cyn penodi ac ar ôl penodi ar dudalen we'r Pwyllgor.

## Maes o Ddiddordeb Ymchwil: arloesi ar gyfer gwella gofal iechyd

Rydym wedi cyhoeddi'n ddiweddar Faes o Ddiddordeb Ymchwil ar arloesi ar gyfer gwella gofal iechyd.

Mae gennym ddiddordeb dysgu sut y gallai'r GIG harneisio pŵer technolegau newydd i wella diagnosis, triniaeth a gofal cleifion, a hoffem glywed gan ymchwilwyr sy'n gweithio i ddatblygu dulliau therapiwtig newydd a'r defnydd o dechnolegau newydd a allai helpu i sbarduno arloesedd ym maes gofal iechyd Cymru.

Mae manylion llawn y Maes o Ddiddordeb Ymchwil, gan gynnwys sut i gofrestru eich arbenigedd a'ch mewnwelediadau ymchwil yn y maes hwn, ar gael ar ein gwefan.

## Blaenraglen waith

Gallwch ddod o hyd i fanylion am ein gwaith hyd yn hyn a'n blaenraglen waith ar ein gwefan.

Gallwch hefyd gael y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Pwyllgor drwy ein dilyn ar Twitter yn @seneddiechyd.